



**TAG UWCH**

1000N50-1



**DYDD GWENER, 26 MAI 2023 – PRYNHAWN**

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF – U2 uned 5**

**Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, yr Hengerdd a'r Cywyddau  
(Papur Ysgrifenedig)**

2 awr

### **DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

### **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylech ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **1 AWR** ar Adran A ac **1 AWR** ar Adran B.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r testunau gosod na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

### **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau.

Mae nifer y marciau sydd ar gael wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn ynghyd â'r marciau am ansawdd iaith ysgrifenedig.

Cofiwch mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc e.e. dadansoddi a defnyddio iaith ysgrifenedig.

## ADRAN A

### 1. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

Darllenwch y darn canlynol yn ofalus ac yna atebwch y **ddau** gwestiwn gan ddewis a dethol gwybodaeth **berthnasol** o'r darn.

- (a) Esboniwch yn fanwl beth sy'n **digwydd** yn y dyfyniad. Yn eich ateb, cyfeiriwch at **arwyddocâd** yr hyn sy'n digwydd yn y darn yng **nghyd-destun** y chwedl. [15]
- (b) Rydym yn adnabod y chwedl fel 'Branwen ferch Llŷr'. Trafodwch ai Branwen neu un o'r cymeriadau eraill yw'r prif gymeriad gan roi rhesymau. Defnyddiwch y dyfyniad yn sylfaen i'ch ateb ond disgwylir eich bod yn cyfeirio at rannau perthnasol eraill o'r chwedl yn ogystal. [15]

Gwobrwyir eich iaith ysgrifenedig wrth ateb y **ddau** gwestiwn uchod. [15]

E chwedyl a doeth at Uatholwch. Sef ual y doeth, dywedut anfuraw y ueirych ac eu llygru, hyt nat oed un mwynyant a ellit o honunt.

'Ie, Arglwyd,' heb un, 'dy waradwydaw yr a wnaethpwyt, a hynny a uynhir y wneuthur a thi.'

'Dioer, eres genhyf, os uy gwaradwydaw a uynhynt, rodi morwyn gystal, kyuurd, gyn anwylet gan y chenedyl, ac a rodyssant ym.'

'Arglwyd,' heb un arall, 'ti a wely dangos, [os] ef. Ac nyt oes it a wnelych, namyn kyrchu dy longeu.' Ac ar hynny arouun y longeu a wnaeth ef.

E chwedyl a doeth at Uendigeituran, bot Matholwch yn adaw y llys, heb ouyn, heb ganhyat. A chenadeu a aeth y ouyn idaw, paham oed hynny. Sef kennadeu a aeth, Idig uab Anarawc, ac Eueyd Hir. Y guyr hynny a'y godiwawd, ac a ouynyssant idaw, pa darpar oed yr eidaw, a pha achaws yd oed yn mynet e ymdeith.

'Dioer,' heb ynteu, 'pei ys gwypwn, ny down yma. Cwbyl waradwyd a geueis. Ac ny duc neb kyrch waeth no'r dugum ymma. A reuedawt rygyueryw a mi.'

'Beth yw hynny?' heb wynt.

'Rodi Branwen uerch Lyr ym, yn tryded prif rieni yr ynys honn, ac yn uerch y urenhin Ynys y Kedeyrn, a chyscu genthi, a gwedy hynny uy gwaradwydaw. A ryued oed genhyf, nat kyn rodi morwyn gystal a honno ym, y gwneit y gwaradwyd a wnelit ym.'

'Dioer, Arglwyd, nyt o uod y neb a uedei y llys,' heb wynt, 'na neb o'e kynghor y gwnaet[h]pwyt y gwaradwyd hwnnw yt. A chyt bo gwaradwyd gennyt ti hynny, mwy yw gan Uendigeituran no chenyt ti, y tremic hwnnw a'r guare.'

## ADRAN B

## 2. Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Darllenwch y dyfyniadau a ganlyn yn ofalus ac yna atebwch y **ddau** gwestiwn.

Gwobrwyir eich iaith ysgrifenedig wrth ateb y **ddau** gwestiwn isod.

[15]

- (a) Ysgrifennwch am **gefndir** y **gerdd** a'r **bardd**. Cyfeiriwch yn benodol at y **dyfyniad** isod er mwyn gwneud eich ateb yn berthnasol. [15]

Enaid Owain ab Urien,  
 gobwyllid ei Rên o'i raid.  
 Rheged udd a'i cudd tromlas,  
 nid oedd fas i'w gywyddaid.  
 Isgell cerddglyd clodfawr;  
 esgyll gawr gwaywawr llifaid.  
 Can ni cheffir cystedlydd  
 i udd Llwyfenydd llathraid.  
 Medel galon, gefeiliad,  
 eisyllud ei dad a'i daid.  
 Pan laddawdd Owain Fflamddwyn,  
 nid oedd fwy nogyd cysgaid.  
 Cysgid Lloegr, llydan nifer,  
 â lleufer yn eu llygaid.  
 A rhai ni fföynt haeach  
 a oeddynt hyach no rhaid:  
 Owain a'u cosbes yn ddrud  
 mal cnud yn dylud defaid.  
 Gŵr gwiw uch ei amliw seirch  
 a roddai feirch i eirchiaid;  
 cyd as cronnai mal caled,  
 rhy rhanned rhag ei enaid.  
 Enaid Owain ab Urien,  
 gobwyllid ei Rên o'i raid.

(b) Dadansoddwch **grefft ac arddull** y bardd yn y dyfyniad isod.

[15]

Gwedy cysgu, tru tremyn,  
 O bawb onid mi a bun,  
 Ceisiais yn hyfedr fedru  
 Ar wely'r ferch, alar fu.  
 Cefais, pan soniais yna,  
 Gwypm dig, nid oedd gampau da.  
 Briwais, ni neidiais yn iach,  
 Y grimog, a gwae'r omach,  
 Wrth ystlys, ar waith ostler,  
 Ystôl groch ffôl, goruwch ffêr.  
 Trewais, drwg fydd tra awydd,  
 Lle y'm rhoed, heb un llam rhwydd,  
 Mynych dwyll amwyll ymwrdd,  
 Fy nhalcen wrth ben y bwrdd,  
 Lle'r oedd cawg yrhawg yn rhydd  
 A llafar badell efydd.  
 Syrthio o'r bwrdd, dragwrdd drefn,  
 A'r ddeudrestl a'r holl ddodrefn.  
 Rhoi diasbad o'r badell,  
 I'm hôl y'i clywid ymhell.  
 Gweiddi, gŵr gorwag oeddwn,  
 O'r cawg, a chyfarth o'r cŵn.

Haws codi, drygioni drud,  
 Yn drwsgl nog yn dra esgud.  
 Dyfod, bu chwedl edifar,  
 I fyny, Cymry a'm câr,  
 Lle'r oedd garllaw muroedd mawr  
 Drisais mewn gwely drewsawr  
 Yn trafferth am eu triphac,  
 Hicin a Siencin a Siac.

## DIWEDD Y PAPUR



**TAG UWCH**

1000N50-1A



S23-1000N50-1A

**DYDD GWENER, 26 MAI 2023 – PRYNHAWN**

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF – U2 uned 5**

**Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, Yr Hengerdd a'r Cywyddau**

(Papur Ysgrifenedig)

2 awr

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau. Clawr blaen y papur arholiad yn unig yw'r daflen hon.**

***For the attention of the Examinations Officer.***

***This is the front cover of the examination paper only.***

***English version overleaf.***

#### **DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad 1000N50-1, bydd angen llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc) arnoch chi.

#### **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylech ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **1 AWR** ar Adran A ac **1 AWR** ar Adran B.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r testunau gosod na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

#### **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau.

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn ynghyd â'r marciau am ansawdd iaith ysgrifenedig.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc e.e. dadansoddi a defnyddio iaith ysgrifenedig.



**GCE A LEVEL**

1000N50-1A



**FRIDAY, 26 MAY 2023 – AFTERNOON**

**WELSH: FIRST LANGUAGE – A2 unit 5**  
**Medieval Prose, Early and Medieval Poetry**

(Written Paper)

2 hours

***For the attention of the Examinations Officer.  
This is the front cover of the examination paper only.***

**ADDITIONAL MATERIALS**

*In addition to the examination paper 1000N50-1, you will need a WJEC pink 16-page answer booklet.*

**INSTRUCTIONS TO CANDIDATES**

*Use black ink or black ball-point pen.*

*Answer **both** questions.*

*Write your answers in the separate answer booklet provided.*

*Where it is necessary to express your opinions, you should give reasons for them and refer to the opinions of others when appropriate.*

*You should use literary criticism terms and quotes.*

*You are reminded that assessment will take into account the quality of written language in your answers.*

*You should allow **1 HOUR** for Section A and **1 HOUR** for Section B.*

**You cannot use dictionaries and set texts in this examination.**

**INFORMATION FOR CANDIDATES**

*The marks allocated for each question are equal.*

*The number of marks available are shown in brackets at the end of each question or part-question as well as the marks for the quality of written language.*

*Remember that this paper is synoptic and therefore will test the information, understanding and skills you have developed by studying the subject e.g. analytical skills and using written language.*